**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Hinsawdd, Natur a Llesiant**
**Cross Party Group on Climate, Nature and Wellbeing**

17:00 – 18:00
05.02.2024

Cyfarfod ar-lein dros Zoom
Virtual meeting over Zoom

1. Croeso a chyflwyniad
Welcome and introduction
Delyth Jewell AS

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Minutes of the last meeting
Delyth Jewell AS

3. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Annual General Meeting

4. Lina Yassin, Ymchwilydd Hinsawdd, Sefydliad Rhyngwladol yr Amgylchedd a Datblygu

5. Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru
Youth Climate Ambassadors for Wales
Alfred Williamson

6. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf
Any other business and date of next meeting
Delyth Jewell AS

**Yn bresennol:** Antonia Fabian (AF), Oliver John (OJ), Michelle Bales (MB), Rachel Lee (RL), Rajsri Saikrishnan (RS), Lina Yassin (LY), Alfred Williamson (AW), Gwenda Owen (GO), Delun Gibby (DG), Molly Hucker (MH)

**Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol:** Delyth Jewell AS (DJ)

**Ymddiheuriadau:** Kathryn Speedy (KS), Peredur Owen Griffiths AS (POG)

**Cofnodion:**

**1. Croeso a chyflwyniad / Welcome and introduction**

Cyflwynwyd RL o Living Streets.

**2. Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol/Annual General Meeting**

Cafodd DJ ei henwebu fel cadeirydd gan AF, a eiliwyd gan GO.

Cafodd Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid eu henwebu fel cyd-gadeiryddion gan AF, a eiliodd DJ.

Cafodd Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru ei enwebu fel ysgrifenyddiaeth, a eiliwyd gan AW.

**3. Lina Yassin, Ymchwilydd Hinsawdd, Sefydliad Rhyngwladol yr Amgylchedd a Datblygu**

Cafwyd cyflwyniad gan LY ar y gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi gwledydd lleiaf datblygedig gyda Sefydliad Rhyngwladol yr Amgylchedd a Datblygu.

Mae gwledydd lleiaf datblygedig yn cwmpasu'r 46 gwlad dlotaf yn fyd-eang, oherwydd mynegeion gwahanol. Y gwledydd hyn hefyd yw'r rhai mwyaf agored i newid hinsawdd.

Cynrychiolir y gwledydd lleiaf datblygedig gan gadeirydd sy'n cael ei enwebu bob dwy flynedd i wthio am ganlyniadau hinsawdd mwy uchelgeisiol a chyfiawn yn negodiadau hinsawdd y Cenhedloedd Unedig a negodiadau COP. Mae canlyniadau'r cyfarfodydd hyn, fel cytundeb PARIS, yn llywio'r hyn a wneir ar lefel polisi cenedlaethol. I'r gwledydd lleiaf datblygedig, mae cysyniad cyfiawnder hinsawdd yn dra phwysig iddynt gan fod newid hinsawdd yn cael effaith anghymesur arnynt, e.e. yn y gwledydd hyn y digwyddodd 69 y cant o'r marwolaethau yn sgil tywydd eithafol.

Y gwledydd hyn yw'r rhai tlotaf hefyd, felly ychydig iawn o adnoddau sydd ganddynt i oresgyn trychinebau amgylcheddol. Byddai angen $200 biliwn i'w heconomïau barhau heb gael effaith negyddol gan newid hinsawdd. Dim ond 10 y cant o'r angen hwnnw sydd wedi'i ddiwallu hyd yn hyn.

Rhoddodd LY yr enghraifft bod llifogydd yn Nîl yn Sudan bob blwyddyn, gyda miloedd o gartrefi a bywydau yn cael eu cymryd. Mae'r llifogydd parhaus hyn yn golygu na all y wlad adfer.

Nid yw gwledydd mwy datblygedig yn dioddef cymaint o effeithiau newid hinsawdd eto, felly mae'n bwysig edrych ar wledydd eraill i ddeall anghydraddoldebau a phwysigrwydd cyfiawnder hinsawdd. Gall pleidleiswyr wneud gwahaniaeth i bolisi byd-eang, a dyna pam mae mor bwysig pleidleisio a gwthio i wneud gwahaniaeth.

Anogodd LY y grŵp i edrych ar feysydd eraill lle y gallent wneud gwahaniaeth, megis lledaenu gwybodaeth neu godi arian.

Gofynnodd DJ beth y gallai gwladwriaethau is-genedlaethol ei wneud gan eu bod yn tueddu i gael eu cynrychioli'n genedlaethol yn unig

Atebodd LY y gallant ymuno â grwpiau dwyochrog a all gael effeithiau cyflymach gan eu bod yn hepgor biwrocratiaeth systemau amlochrog.

Holodd MH a all y derminoleg 'gwlad leiaf datblygedig' fod yn broblemus gan ei fod yn cael ei ddiffinio i raddau helaeth gan gymdeithasau cyfalafol y gorllewin, a hefyd a oedd LY o'r farn bod gwneud iawn yn beth da.

Atebodd LY fod dadl fawr ynghylch y derminoleg ond mai diffiniad y Cenhedloedd Unedig yw'r gwledydd lleiaf datblygedig. Mae 'de'r byd' yn gyfeiriad daearyddol ac felly gall fod yn ddryslyd pan gaiff ei ddefnyddio i gwmpasu gwledydd sydd yn y gogledd yn ddaearyddol ac sydd hefyd â chanolbleidiaeth y gorllewin.

Wrth ateb ail hanner ymholiad MH, ychwanegodd LY nad yw gwneud iawn yn ymwneud ag 'achub' gwledydd lleiaf datblygedig, nac yn achos elusen ychwaith. Mae'r gwledydd hyn yn gwybod sut i frwydro yn erbyn newid hinsawdd ond nid oes ganddynt yr adnoddau, a dyna lle y mae cyfiawnder hinsawdd yn dod i mewn.

Gofynnodd RL a yw'r cenhedloedd yr effeithir arnynt yn gallu negodi am yr hyn y mae arnynt ei angen, yn hytrach na chael eu gorchymyn ynghylch yr hyn y byddant yn gwario'r arian arno.

Atebodd LY fod y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer newid hinsawdd yn dod o'r Gronfa Hinsawdd Werdd ac yn aml mae angen i wledydd lywio llawer o fiwrocratiaeth i gael swm bach o arian. Ar ben hynny, bydd 10 y cant o'r cyllid ar gyfer ffioedd rheoli'r Cenhedloedd Unedig, yn hytrach na mynd yn uniongyrchol i'r prosiect.

Gofynnodd OJ a oes gan LY fyfyrdodau ar yr hyn sy'n gweithio'n dda wrth addysgu am yr hinsawdd mewn ysgolion.

Atebodd LY mai'r hyn sy'n bwysig yw peidio â'i gwneud yn rhy ragnodol a chael enghreifftiau go iawn a chyfredol. Dylai pobl ifanc hefyd deimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn fwy adeiladol. Mae angen i ni gael cenhedlaeth sy'n deall cyfiawnder hinsawdd fel egwyddor allweddol, a dim ond pan fydd gennym arweinwyr sydd â pholisi sy'n ystyriol o'r hinsawdd yn ddiofyn y bydd hyn yn digwydd. Cododd LY gynhadledd 'Teens and Teachers take on Climate Change' fel enghraifft gadarnhaol o gynnwys pobl ifanc wrth lywio addysg hinsawdd.

Gofynnodd AW pa nodau oedd fwyaf effeithiol i grwpiau fel y Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid eu cael.

Dywedodd LY y dylai galw am ostwng allyriadau'n gyflym fod y nod cyntaf ac y dylai ariannu gwledydd lleiaf datblygedig lle y pennir y blaenoriaethau gwariant gan y gwledydd hynny fod yr ail.

**4. Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru / Youth Climate Ambassadors for Wales**

Cafwyd diweddariad gan AW nad oedd y ddeiseb a oedd yn galw am gydnabyddiaeth gyfreithiol i ffoaduriaid hinsawdd yn mynd yr holl ffordd i'r senedd ond ei bod wedi codi llawer o ymwybyddiaeth o'r mater. Mae'r grŵp hefyd wedi colli sawl aelod ac felly y brif flaenoriaeth yw cynyddu nifer yr aelodau.

Bydd y linc i'r ffurflen gais yn cael ei rannu gyda'r cofnodion. 13-25 yw'r ystod oedran ar gyfer ymuno â'r Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid.

**5. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf / Any other business and date of next meeting**

Cyflwynodd DJ ddarn o ddeddfwriaeth aelod yn y Senedd ar syniadau ar gyfer bil sicrwydd hinsawdd y dylid cael darpariaeth benodol yn y cwricwlwm i fod yn siarad am newid hinsawdd ar draws pob disgyblaeth. Cafodd hyn ei basio a phleidleisiwyd drosto gan fwyafrif yr aelodau o'r Senedd.

Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf ei bennu'n ddiweddarach a'i anfon gyda'r cofnodion.

**6. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.